actif

*Chwaraeon a hamdden i'r gymuned gyfan...*

# GWASANAETHAU HAMDDEN SIR Y FFLINT
# TELERAU AC AMODAU DEFNYDDIO CERDYN ACTIF

1. Eiddo Gwasanaethau Hamdden Cyngor Sir y Fflint yw'r cerdyn actif.

2. Gwneir pob taliad ar gyfer dewisiadau misol drwy ddebyd uniongyrchol.

3. Os bydd y debyd uniongyrchol yn cael ei ganslo, efallai na fyddwch yn cael gwneud unrhyw weithgareddau/defnyddio unrhyw gyfleusterau yn unrhyw un o'r Canolfannau.

4. Dim ond y gweithgareddau/cyfleusterau yr ydych wedi'u dewis ar eich cerdyn actif y cewch eu defnyddio.

5. Ni chewch drosglwyddo'r cerdyn actif.

6. Rhaid cadw at reolau a thelerau defnyddio pob gweithgaredd bob amser.

7. Rhaid i chi ddweud ar unwaith os ydych yn colli'ch cerdyn a bydd rhaid i chi brynu cerdyn yn ei le.

8. Nid yw pob gweithgaredd/cyfleuster ar gael ym mhob canolfan.

9. Nid ydym yn gwarantu gweithgareddau a chyfleusterau; dylai cwsmeriaid gyfeirio at raglenni canolfannau unigol.

10. Rhaid i bob cwsmer bod yn gwrtais a dangos parch tuag at gwsmeriaid eraill ac at staff.

11. Mae Gwasanaethau Hamdden Sir y Fflint yn cadw'r hawl i newid, addasu neu ychwanegu at delerau ac amodau defnyddio'r cerdyn.